Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Dyfarnwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009**
*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

## LLUN YSGOL GYFAN

Ymddiheuriadau lu am yr holl ddryswch a fu ddydd Gwener diwethaf ynghylch y llun ysgol gyfan. Yn anffodus, am resymau tu hwnt i reolaeth yr ysgol, ni lwyddwyd i dynnu'r llun. Rydym felly wedi llwyddo i newid y dyddiad i **ddydd Iau 24ain o Fai**, gyda'r cwmni yn dyblu comisiwn y gwerthiant i'r ysgol er mwyn gwneud yn iawn am y dryswch.
Byddwn yn dilyn yr un drefn ar gyfer y dyddiad newydd : Gofynnir yn garedig i bawb wisgo eu crysau t gwyn a'r crysau chwys coch. Os nad oes gennych wisg yna mi fyddwn yn rhoi benthyg top coch i'r plant ar gyfer y llun. Mae croeso i ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth Meithrin yn y bore yn unig ddod gyda'u rhieni i dynnu'r llun am 1.30 (angen cyrraedd erbyn 1.15) ac yna dychwelyd adref.

## CERDDORFA

Bydd y gerddorfa yn ymarfer ar fore dydd Mercher yr wythnos hon (Mai 16eg) yn hytrach na bore Gwener. Bydd yr ymarferion yn dychwelyd i fore dydd Gwener wythnos nesaf.

## YMWELIAD BLWYDDYN 6 Â'R ARDD FOTANEG

Bydd blwyddyn 6 yn ymweld â'r Ardd Fotaneg **dydd Gwener 18fed o Fai** er mwyn cefnogi gwersi Daearyddiaeth y tymor. Bydd y bws yn gadael yn brydlon am 8 o'r gloch ac yn dychwelyd erbyn tua 4:15yp. Cost y daith yw £7 y plentyn. Bydd angen pecyn bwyd ar y disgyblion, a phawb i wisgo gwisg ysgol os gwelwch yn dda.

## BLWYDDYN 4 A'R FFLAM OLYMPAIDD

Bydd Blwyddyn 4 yn ymweld ag Arddangosfa **Dilyn y fflam** yn y Llyfrgell Genedlaethol wythnos nesaf. Bydd dosbarth Miss Sera Evans (4E) yn mynd ar fore dydd Llun a dosbarth Mr Dyfed Jones (4J) ym mynd ar fore dydd Mercher. Byddant yn cerdded yno ac yn ôl felly ni chodir tâl.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â'r ysgol ar unwaith**

Yn gywir,

Mr Gareth James
Dirprwy Bennaeth
15/05/2012

Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613   Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Dyfarnwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009**
*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

## *WHOLE SCHOOL PHOTO*

*Many apologies for the mix-up regarding the whole school photograph last week. Unfortunately, for reasons beyond our control, we were unable to take the photograph. We have managed to arrange another date which is Thursday 24th May, with the company doubling the school's commission as an apology for the mix-up.*
*We'll be following the same rules as before : We kindly ask all pupils to wear their white polo shirt and red sweat shirt. If you do not have a school outfit then we will lend a red top for the photo. Pupils who attend the Nursery class in the mornings only are welcome to come to school with their parents to take the photo at 1.30 (please arrive by 1.15) and then return home.*

## *ORCHESTRA*

*The school orchestra will be rehearsing on Wednesday morning this week (May 16th) rather than on Friday. The rehearsals will return to Fridays from next week onwards.*

## *YEAR 6 VISIT TO THE NATIONAL BOTANICAL GARDENS*

*Year 6 will be visiting the National Botanical Gardens on Friday 18th May to support the work done in Geography this term. The bus will depart promptly at 8 o'clock and return by approximately 4:15pm*. The cost of the trip is £7 per pupil. The pupils will need to bring a packed lunch, and to wear their school uniform please.

## *YEAR 4 AND THE OLYMPIC FLAME*

*Year 4 will be visiting the National Library to see the* '**Dilyn y Fflam**' *(Following the Flame) exhibition next week. Miss Sera Evans' class (4E) will visit on Monday morning, May 21st, and Mr Dyfed Jones' class (4J) on Wednesday morning, May 23rd. They will be walking there and back therefore there is no cost involved.*

**If you have any worries regarding your child's education then please contact the school immediately**

Yours,

Mr Gareth James
Deputy Headteacher
15/05/2012